

**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.**

**WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 15.11.19**

**PNAWN AGORED Y MEITHRIN+ OPEN AFTERNOON.**

Daeth cynrychiolaeth dda iawn o blith y rhieni i'r Pnawn Agored a gafwyd bawn Mawrth yn yr Uned. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd ar gyfer yr achlysur hwn.

*A good representation of parents turned up for the Open Afternoon held on Tuesday afternoon. Many thanks to those who came along to the event.*

**COFRESTRU AR GYFER Y DERBYN – REGISTERING FOR THE RECEPTION CLASS – 2020-2021**

Atgoffir rhieni y disgyblion meithrin presennol mai'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru eich plentyn ar wefan sir y Fflint i ddod i'r dosbarth Derbyn ym Medi 2020 yw dydd Gwener, Tachwedd 22ain.

*Parents of the pupils who are at present in the school's Nursery department are reminded that the closing date for registering your child, on the Flintshire website, for the Reception class in September 2020 is Friday, November 22<sup>nd</sup>.*

**GALA NOFIO'R URDD SWIMMING GALA.**

Aeth nifer dda o'r disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i gynrychioli'r ysgol yng ngala nofio Ranbarthol yr Urdd yn Nhreffynnon ddydd Mercher. Gwnaethant oll eu rhan yn arbennig o dda, a llwyddwyd i ennill tair gwobr gyntaf a 7 sail wobwr yn ystod y dydd. Bydd tîmau Râs Gyfnewid bechgyn a merched Blwyddyn 3 a 4 a Fflur yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Rhanbarth yn y gala genedlaethol yng Nghaerdydd ddiwedd Ionawr.

*A large number of our Key Stage 2 pupils represented the school at the Urdd Regional swimming gala in Holywell on Wednesday. They all did very well, and our pupils won 3 first prizes and 7 second prizes during the day. The Years 3 and 4 girls and boys relay teams and Fflur will go forward to represent the Region at the national gala in Cardiff in January.*

**SEREMONI GWOBWRWYO'R SIARTER IAITH – LANGUAGE CHARTER'S CELEBRATION CEREMONY.**

Prynawn ddoe, aeth pedwar o Lysgenhadon y llynedd i dderbyn tystysgrif Gwobr Aur y Siarter Iaith y bu i ni ei ennill ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf. Cafodd rhywfaint o'r seremoni ei recordio ar gyfer rhaglen Heno, a fydd ymlaen efallai am 6.30 p.m. heno.

*Yesterday afternoon, 4 of last year's Language Ambassadors went to receive the Language Charter's Gold Award which we won at the end of the last academic year. Part of the ceremony was recorded for the Heno programme, and it could be shown tonight at 6.30 p.m.*

**DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN – CHILDREN IN NEED DAY.**

Rydym yn cael diwrnod arbennig o dda i ddynodi Diwrnod Plant mewn Angen heddiw. Mae pawb yn edrych yn ddeniadol yn eu gwisg arbennig i ddatlu'r diwrnod ac yn gwneud

amrywiaeth o weithgareddau yn y dosbarthiadau. Roedd y gystadleuaeth addurno cacennau/bisgedi yn hynod o lwyddiannus. Diolch i'r Cyngor Ysgol am feirniadu, ac am gynnig syniadau ar sut i ddathlu'r diwrnod. – ac i chithau am eich cefnogaeth wrth gwrs. Am nad yw'r arian eto wedi'i gyfrif, rhown wybod i chi beth fydd y cyfanswm yng Nghylchlythyr yr wythnos nesaf.

*We're having a great day raising money for this worthy cause today. Everyone looks wonderful in their special clothes for the day, and are carrying out various activities in the classes. The cake/biscuit decoration competition proved to be extremely popular. Many thanks to the School's Council for judging the competition and for their ideas on raising money on the day, and to you for your support of course. As the money has not as yet been counted, you will be informed in next week's Newsletter as regards to the total raised.*

#### **CYSTADLEUAETH BÊL DROED RON BISHOP FOOTBALL COMPETITION.**

Mae tîm o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth bêl droed Cwpan Ron Bishop heddiw. Pob lwc i'r tîm a gobeithio y bydd yr aelodau yn mwynhau'r profiad.

*A team of Year 5 pupils are competing today in the Ron Bishop Cup football competition. Every good luck to the team, and we hope that they will enjoy the experience.*

#### **EISTEDDFOD TREUDDYN EISTEDDFOD.**

Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Treuddyn yfory. Mawr obeithiwn y byddant oll yn mwynhau'r profiad o gael cymryd rhan.

*Every good wish to those competing at Treuddyn Eisteddfod tomorrow. It is hoped that they will all enjoy the experience of participating in this event.*

#### **FFAIR NADOLIG YR YSGOL – SCHOOL'S CHRISTMAS FAIR**

Edrychir ymlaen at eich cwmni yn Ffair Nadolig flynyddol Ffrindiau Glanrafon sydd i'w chynnal **ddydd Mercher nesaf, Tachwedd 20fed o 3-6 p.m.** Bydd yno amrywiaeth o stondinau ac atyniadau, a diolchir ymlaen llaw i'r pwyllgor, i bawb fydd yn cynorthwyo ar y noson, ac i bawb am eu cefnogaeth.

*We look forward to your company at the Friend of Glanrafon Christmas Fair to be held on **Wednesday, November 20<sup>th</sup> from 3-6 p.m.** There will be a variety of stalls and attractions in the Fair, and we thank the committee, all the helpers on the afternoon, and everyone for their support, beforehand.*

#### **DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.**

**20.11.19** Ffair Nadolig yr ysgol 3-6 p.m. – *School's Christmas Fair.*

**22.11.19** Dyddiad cau cofrestru ar gyfer dosbarth Derbyn 2020-2021 – *Last day for registering for the 2020-2021 Reception class.*

#### **BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF/NEXT WEEK'S MENU – WYTHNOS/WEEK 3**